# Road Safety Wales
# Diogelwch Ffyrdd Cymru

## Know the difference between e-bikes and electric motorcycles

June 2023
















Mae e-feic yn feic sydd â modur trydan i'ch helpu pan fyddwch chi'n pedlo. Yn ôl y gyfraith, chaiff e-feic ddim o’ch gyrru ar ei ben ei hun. Os yw’n gwneud hynny, mae'n cael ei ystyried yn feic modur neu foped.
An e-bike is a bicycle equipped with an electric motor to assist you when you’re pedalling. By law it cannot propel you on its own. If it does, it’s classed as a motorcycle or moped.

Mae e-feic yn feic pedlo sydd â chymorth trydanol. I reidio e-feic, rhaid ichi fod yn 14 oed o leiaf. Does dim angen trwydded arnoch a does dim angen i’r e-feic cael ei gofrestru, ei drethu neu ei yswirio.
An e-bike is an electrically assisted pedal cycle. To ride an e-bike, you must be at least 14 years old. You do not need a licence and it does not need to be registered, taxed or insured.

Ydych chi'n reidio beic modur trydan neu foped? Rhaid ichi sicrhau ei fod yn gyfreithiol ar y ffordd, rhaid ichi gael trwydded briodol, a rhaid i’r beic gael ei drethu a'i yswirio. Mae rhagor o wybodaeth am drwyddedu ar gael yma: walesbybike.com/learningtoride
Do you ride an electric motorcycle or moped? You must make sure it is road legal, you must have an appropriate licence, and the vehicle must be taxed and insured. Find out more about licensing here: walesbybike.com/learningtoride


Mae e-feic yn feic pedlo sydd â chymorth trydanol. Mae modur e-feic wedi'i gyfyngu i allbwn o 250 wat a rhaid iddo dorri allan pan fydd eich cyflymder yn cyrraedd 15.5mya (25kph). Os yw’ch e-feic yn mynd yn gyflymach na hyn, fydd e ddim yn gyfreithiol ar y ffordd mwyach.
An e-bike is an electrically assisted pedal cycle. An e-bike motor is limited to 250 watts output and must cut out when your speed reaches 15.5mph (25kph). If your e-bike goes faster than this, it is no longer road-legal.

Os ydych chi'n ystyried prynu e-feic, gwiriwch fod ganddo allbwn pŵer o ddim mwy na 250 wat ac na fydd y modur yn gallu gyrru'r beic pan fydd yn teithio ar fwy na 15.5mya. Fe allech fod yn prynu e-feic nad yw'n gyfreithiol ar y ffordd.
If you’re considering buying an e-bike, please check that it has a maximum power output of 250 watts and will not be able to propel the bike when it’s travelling more than 15.5mph. You could be buying an e-bike that is not road-legal.

Rhaid i e-feic gael pedalau a all gael eu defnyddio i'w yrru ac mae'n rhaid iddo ddangos:


- yr allbwn pŵer neu wneuthurwr y modur, a
- foltedd y batri neu'r cyflymder uchaf













**An e-bike must have pedals that can be used to propel it and has to display:**

- **the power output or the manufacturer of the motor, and**
- **the battery's voltage or the maximum speed**

**Ydych chi'n gyrru e-feic? Rhaid iddo gael pedalau a all gael eu defnyddio i'w yrru a rhaid i'r modur trydan fod ag allbwn pŵer o 250 wat ar y mwyaf. Ddylech chi ddim gallu gyrru'r beic pan fydd yn teithio ar y cyflymder uchaf o 15.5mya.**
**Do you ride an e-bike? It must have pedals that can be used to propel it and its electric motor must have a maximum power output of 250 watts. You should not be able to propel the bike when it's travelling at the maximum speed of 15.5mph.**

**Os oes gennych chi e-feic, chewch chi mo'i addasu i'w alluogi i fynd yn gynt na 15.5mya (25kph). Os bydd eich e-feic yn mynd yn gyflymach na hyn, fydd e ddim yn gyfreithiol ar y ffordd.**
**If you have an e-bike, you must not modify it to enable it to exceed 15.5mph (25kph). If your e-bike goes faster than this, it is not road-legal.**

**Os yw'ch e-feic yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, cewch ei reidio unrhyw le y caniateir beiciau pedal.**
**If your e-bike meets all legal requirements, you can ride it anywhere that pedal cycles are permitted.**

**Os ydych chi wedi adeiladu e-feic neu wedi'i newid yn sylweddol, rhaid ichi ofyn am gymeradwyaeth teip – rhagor o wybodaeth yma: gov.uk/vehicle-approval. Heb hyn, mae'n debyg eich bod yn torri'r gyfraith. Gofalwch eich bod yn gwybod y ffeithiau ar e-feiciau.**
**If you have built or radically altered an e-bike, you must seek type approval – find out more here: gov.uk/vehicle-approval. Without this you are very probably breaking the law. Please make sure you know the facts on e-bikes.**

**Gall e-feic, pan fo'n bodloni'r fanyleb ofynnol ac yn cael ei reidio yn unol â'r gyfraith, fod yn ddewis ardderchog ar gyfer siwrneiau lleol. Gofalwch bob amser fod eich dull teithio dewisol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn gyfreithiol i'w ddefnyddio.**
**An e-bike, when meeting the required specification and ridden in accordance with the law, can be an excellent choice for local journeys. Always ensure that your chosen mode of transport is well-maintained and legal to use.**

**Byddwch yn ymwybodol bod unrhyw feic trydan nad yw'n bodloni'r rheolau ynglŷn â beiciau pedal â chymorth trydanol (EAPC) yn cael ei ystyried yn feic modur neu foped a bod angen ei gofrestru a'i drethu. Bydd angen trwydded briodol arnoch er mwyn reidio un ac mae'n rhaid ichi wisgo helmed ddamwain.**
**Please be aware that any electric bike that does not meet the electrically assisted pedal cycles (EAPC) rules is classed as a motorcycle or moped and needs to be registered and taxed. You'll need a driving licence to ride one and you must wear a crash helmet.**

Mae'n anghyfreithlon reidio beic modur oddi-ar-y-ffordd ar y ffordd, y palmant neu mewn lonydd beicio waeth beth yw'r ffynhonnell bŵer neu'r fanyleb. Dim ond ar dir preifat y caniateir defnyddio beiciau oddi-ar-y-ffordd, a hynny gyda chaniatâd y tirfeddiannwr.

It is illegal to ride an off-road motorcycle on the road, pavement or in cycle lanes regardless of its power source, or specification. Off-road bikes can only be used on private land, with the landowner's permission.

Mae cerbydau anghyfreithlon, sydd wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio oddi ar y ffordd yn unig, yn peryglu beicwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd ac yn creu aflonyddwch mewn cymunedau lleol. O dan Adran 59 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, caiff yr heddlu atafaelu cerbydau sy'n cael eu defnyddio'n anghyfreithlon, gan gynnwys defnydd gwaharddedig oddi ar y ffordd.

Illegal vehicles, intended for off-road use only, put riders and other road users at risk and cause disturbances in local communities. Under Section 59 Police Reform Act 2002, police can seize vehicles which are being used illegally, including prohibited off-road use.

I roi gwybod am ddefnyddio cerbydau anghyfreithlon neu reidio gwrthgymdeithasol yn eich ardal chi, defnyddiwch 101 neu ffoniwch Taclo'r Taclau yn ddienw ar 0800 555 111.

To report the use of illegal vehicles or anti-social riding in your area, use 101 or call Crimestoppers anonymously on 0800 555 111.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod y gwahaniaeth rhwng e-feic a beic modur trydan. Mae e-feic yn feic pedlo sydd â chymorth trydanol.

Please make sure you know the difference between an e-bike and an electric motorcycle. An e-bike is an electrically assisted pedal cycle.